

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
FFORWM MYNEDIAD LLEOL YNYS MÔN	LOCAL ACCESS FORUM
DYDD MAWRTH, 28 IONAWR 2014 am 10.30 o'r gloch	TUESDAY, 28 JANUARY, 2014 at 10.30 a.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI	COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI
Swyddog Pwyllgor	Mr. Dan Jones FRAGs - Secretary of the Forum Committee Officer

Ysgrifennydd y Fforwm/Secretary of the Forum :

Mr. Dan Jones FRAGs, Danolfan, 23 Cae Mair, Biwmares/Beaumaris, Ynys Môn.
Danjones323@btinternet.com

AELODAU/MEMBERS :

Mr. Dewi ap Rhobert, Sycharth, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn.
Mr. John Tudor Astley, Mynydd Mwyn Mawr, Llannerch-y-medd, Ynys Môn.
Ms. Margaret Ferne, Edeyrn View, Westley Street, Bodedern, Ynys Môn.
Dr. Eric Haworth, Bayfield, The Drive, Malltraeth, Ynys Môn.
Mr. Keith Hollingworth, Rhyd Farm, Amlwch, Ynys Môn.
Mr. Peredur Hughes, Fferam Uchaf, Llanddeusant, Ynys Môn.
Mr. Bryn Jones, Fferm Ty'n Buarth, Dothan, Ty Croes, Ynys Môn.
Mrs. J. Lewis, 3 Pen y Graig, Llanfachraeth, Ynys Môn.
Mr. J. Marshall, 20 Y Wern, Llanfairpwll, Ynys Môn.
Ms. Andria Massey, 8 Swyn y Don, Benllech, Ynys Môn.
Mr. Alun Owen, Gwasanaeth Cefn Gwlad/Countryside Services, Cyngor Sir/County Council.
Mr. R. Elwyn Owen, Crud yr Awel, Llanfaethlu, Ynys Môn.
Mr. Rhys Ll. Owen, 37 Alaw View, Rhosybol, Ynys Môn.
Mr. Tony Pritchard, Bryn Awel, Cerrigceinwen, Bodorgan, Ynys Môn.
Mr. Eric Roberts, Greenacres, Porth-y-Post, Trearddur, Ynys Môn.
Mr. Myrddin J. Roberts, Penhwnllys Uchaf, Llangoed, Ynys Môn.
Mr. John Stubbs, Ty Mawr Llanfihangel, Llanddona, Ynys Môn.
Mr. Ted Thomas, 26 Bronllys, Gaerwen, Ynys Môn.
Mr. Christopher Topps, Gwynfa, Waterside, Aberffraw, Ynys Môn.
Sir Richard Williams-Bulkeley, Red Hill, Beaumaris, Ynys Môn.

NODI/NOTE : Mae cinio bwffe wedi ei drefnu ar derfyn y cyfarfod/A buffet lunch has been arranged following the termination of the meeting.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 COFNODION (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2013.

3 MATERION YN CODI

Ac heb eu rhestru ar y Rhaglen.

4 LON LAS CEFNI - (COFNOD 6.2) (Tudalennau 11 - 18)

Derbyn adroddiad gan yr Adran Priffyrdd ar –

5 ADOLYGU TIR MYNEDIAD (COFNOD 7.0) (Tudalennau 19 - 20)

Copi o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyniad Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn y dylai perchnogion tir dderbyn rhybudd statudol o ddynodiad neu newidiadau i'w tir.

6 LLINELLAU PWER NEWYDD ARFAETHEDIG AR DRAWS YNYS MÔN

Ymateb y Grid Cenedlaethol.

7 ADRODDIAD O GYFARFOD CADEIRYDDION FFORWM MYNEDIAD LLEOL (FFMLL) YN Y DRENEWYDD AR 15 HYDREF 2013

Yn cynnwys y cyflwyniad i gael mwy o gyllid ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus gan FfMLL Ynys Môn yn unol â Chofnod 11 y cyfarfod diwethaf.

8 FFORWM MYNEDIAD CENEDLAETHOL CYMRU 19 RHAGFYR 2013 YNG NGHAERDYDD

Ystyried unrhyw eitemau a fydd angen sylw o'r cyfarfod.

9 MATERION HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS YNG NGHWNINGAR NIWBWRCH (Tudalennau 21 - 38)

Derbyn adroddiad gan yr Adran Priffyrdd ar y materion a'r camau arfaethedig i ddatrys y materion hyn.

10 ADOLYGIAD O DEDDFWRIAETH MYNEDIAD A HAMDDEN AWYR AGORED

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar ymgynghoriad papur gwyrdd sydd ar ddod.

11 LLWYBR ARFORDIROL YNYS MÔN

Derbyn diweddariad ar gyllid grant a phrosiectau ac adroddiad ar y difro a waned gan y stormydd diweddar.

12 MATERION LLEOL

13 UNRHYW FATER ARALL

This page is intentionally left blank

FFORWM MYNEDIAD LLEOL YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2013

PRESENNOL:

John Tudor Astley
Margaret Ferne
Eric Howarth
Keith Hollingworth
Peredur Hughes
Jacki Lewis
Jim Marshal
Andria Massey
Alun Owen
Rhys Ll. Owen
Tony Pritchard
Eric Roberts
J. Myrddin Roberts
Ted Thomas
Christopher Topps
Syr R.W. Bulkeley

WRTH LAW:

Dan Jones – Ysgrifennydd FMLl
Arwel Evans – Swyddog Hawliau Tramwy
Dewi Williams – Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd
Huw Percy - Prif Beiriannydd

YMDDIHEURIADAU:

Dewi ap Rhobert
R. Elwyn Owen
John Stubbs

1. CADEIRYDD

Rhoddodd y Cadeirydd Gweithredol Dan Jones, Ysgrifennydd y Fforwm groeso i aelodau hen a newydd y Fforwm a hefyd i swyddogion yr Awdurdod Lleol. Rhoddodd amlinelliad o weithrediad cyffredinol y Fforwm a dymunodd yn dda i'r aelodau yn eu trafodaethau a'u penderfyniadau.

2. NODI'R RHESTR O AELODAU

Nodwyd y rhestr o Aelodau ar gyfer tymor newydd y Fforwm Mynediad a rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i'r holl Aelodau a Staff gyflwyno eu hunain yn unigol. Nodwyd y tri ymddiheuriad am absenoldeb.

3. RÔL A DYLETSWYDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL [Papur A]

Roedd manylion am swyddogaeth statudol y Fforwm Mynediad Lleol wedi eu cylchu gyda Rhaglen y cyfarfod a nodwyd bod disgwyl i'r Fforwm roi cyngor ar wella mynediad cyhoeddus i dir yn ei ardal i bwrpasau hamdden awyr agored a mwynhau'r ardal yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CROW).

Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon fe ddylai'r Fforwm roi sylw i –

- Anghenion rheoli tir
- Yr angen i gadw harddwch naturiol yr ardal yn cynnwys fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffegol yr ardal.
- Cyfarwyddyd a roddir o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y Cynllun Gwellu Hawliau Tramwy a'i adolygu yn agwedd bwysig o waith y Fforwm. Ffactor bwysig arall oedd adolygu'r gwaith o fapio'r tir agored a thir comin cofrestredig a derbyn adroddiadau a chymryd camau ynglŷn â'r holl faterion oedd yn berthnasol i ddefnydd y cyhoedd o hawliau tramwy.

Nodwyd ei bod yn bwysig i'r Fforwm chwarae rhan lawn yn gosod ei agenda ei hun ac y dylai aelodau unigol fod yn weithredol yn y cyswllt hwnnw.

4. ETHOL CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD [Papur B]

Dywedodd y Cadeirydd Gweithredol – yn unol â'r manylion oedd wedi eu cylchu, roedd gweithdrefn statudol ar gyfer penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y fforwm. Byddai enwebiadau ar gyfer y ddwy swydd yn cael eu cymryd yn y cyfarfod cyntaf a byddai pleidlais gudd yn cael ei chynnal yn yr ail gyfarfod gyda nodyn byr gan yr ymgeisydd a enwebwyd i helpu yn y broses ddewis.

CADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd Gweithredol am enwebiadau. Cynigiwyd ac eiliwyd enw Dewi ap Rhobert. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill ac fe nodwyd ei fod i ffwrdd o'i gartref ond ei fod wedi nodi cyn hynny y byddai'n sefyll i'w ethol pe cai ei enwebu. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill dywedodd y Cadeirydd Gweithredol y byddai **Dewi ap Rhobert** yn gwasanaethu fel Cadeirydd y Fforwm.

DIRPRWY GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd Gweithredol am enwebiadau. Cynigiwyd enw John T. Astley a'i eilio. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Gan nad oedd enwebiadau eraill dywedodd y Cadeirydd Gweithredol y byddai **John T. Astley** yn gwasanaethu fel Dirprwy Gadeirydd.

Safodd Dan Jones i lawr fel Cadeirydd ac aeth John Astley i'r Gadair am weddill y cyfarfod.

5. MATERION GWEINYDDOL

Cyflwynodd Arwel Evans fanylion am weithrediad a gweinyddiad y Fforwm, y Cylch Gorchwyl, y weithdrefn ar gyfer hawlio treuliau a dyddiadau cyfarfodydd y Fforwm. Holodd beth oedd dymuniad y Fforwm o safbwynt lleoliadau ac amseroedd y cyfarfodydd. Cytunodd yr aelodau mai'r lleoliad presennol yn Swyddfeydd y Cyngor Sir oedd orau am 10.30am, ond pe bai yna rhyw broblem arbennig neu fod angen ymweld ag ardal yna fe ellid gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod yn y lleoliad hwnnw.

6. COFNODION Y FFORWM DIWETHAF A GYNHALIWDYD AR 7 MAI 2013 [Papur C]

Yn codi o'r Cofnodion

6.1 Y bwriad i godi Llinellau Trydan Newydd ar draws Ynys Môn [Cofnod 3.5]

Nododd Peredur Hughes bod penderfyniad wedi ei wneud i drefnu cyfarfod arbennig gyda'r Grid Cenedlaethol i bwysleisio'r gwrthwynebiad i llwybr y peilonau newydd dros y tir ond nad oedd y cyfarfod wedi ei gynnal hyd yn hyn

Oherwydd bod hwn yn fater mor bwysig, cytunwyd y dylid cynnal cyfarfod arbennig gyda'r Grid Cenedlaethol. Cytunodd Arwel Evans i wneud y trefniadau.

6.2 Cob Malltraeth – Llwybr Ceffylau

Cyfeiriodd Margaret Ferne at y datganiad nad oedd lled y llwybr, sef 2 metr, yn Malltraeth yn addas ar gyfer aml-ddefnydd ond roedd defnydd o'r fath yn cael ei ganiatáu mewn rhannau eraill o'r wlad. Dywedodd Arwel Evans bod Safonau Llwybr Beicio Sustrans yn gofyn am 3-4 metr i drac beicio/llwybr sy'n cael ei rannu, a gyda llwybr ceffyl cyfagos. Dywedodd Margaret Ferne bod llwybr Ceffyl yn Rhyd Ddu wedi ei ail-alinio yn ddiweddar a'i wynebu i hyd o 2 metr a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan feicwyr hefyd. Eglurodd Arwel Evans bod llwybr ceffylau yn wahanol fath o briffordd i drac beiciau. Nid oes hawl i rai ar gefn ceffylau ddefnyddio traciau beicio ond mewn rhai achosion fe ellir darparu llwybr ceffyl gerllaw. Roedd Deddf Cefn Gwlad 1968 wedi rhoi hawl i feicwyr ddefnyddio llwybr ceffylau ond rhaid iddynt wneud lle i ddefnyddwyr eraill.

Cytunwyd i lunio adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar hawliau beicwyr a reidiwyr ceffylau yn cynnwys gwybodaeth ar ddatblygu Lon Las Cefni a'r gorchmynion cyfreithiol a wnaed yn ei gylch.

Byddai Arwel Evans hefyd yn codi'r mater gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i holi am y posibilrwydd o sefydlu llwybr ceffylau cyfagos ar Gob Malltraeth.

7. MAP DROS DRO O DIR MYNEDIAD

Cafwyd adroddiad bod y map dros dro o gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 7 Awst 2013 ar gael i'w archwilio yn y cyfarfod ac ar wefan CNC. Gallai unrhyw un oedd â diddordeb cyfreithiol yn y tir

apelio yn erbyn ei gynnwys ar y map a byddai angen iddynt apelio erbyn 7 Tachwedd 2013.

Gofynnwyd i'r ysgrifennydd gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru i weld â oedd unrhyw gynnydd wedi ei wneud yng nghyswllt yr angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod yn rhaid i berchnogion a deiliaid tir gael eu hysbysu pan fyddai eu tir yn cael ei ddynodi.

8. ADOLYGIAD O DDEDDFWRIAETH MYNEDIAD A HAMDDEN AWYR AGORED [Papur D]

Nodwyd bod y wybodaeth oedd yn y Ddogfen Draford yn cwmpasu ystod eang o faterion. Y ffactor sylfaenol oedd bod Llywodraeth Cymru yn dymuno adolygu'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â hamdden awyr agored gyda'r bwriad o sicrhau gwell mynediad i hamdden awyr agored, ei foderneiddio a symalhau'r fframwaith rheoleiddiol presennol a darparu eglurder a sicrwydd ynglŷn â lle y gall pobl fynd a'r hyn y gallant ei wneud yno.

Cafwyd adroddiad y byddai Papur Ymgynghori Gwyrdd yn cael ei ryddhau tua diwedd 2013 ac y byddai hwn yn cael ei gylchu i aelodau'r Fforwm.

9. RHAGLEN WAITH Y LLWYBR ARFORDIROL 2013/14

Cyflwynodd Hugh Percy grynodedb o'r prosiectau ar Lwybr Arfordirol Cymru dros 2 flynedd gan egluro'r eitemau oedd wedi eu cynnwys a chanran y nawdd grant oedd wedi ei ddarparu. Nid oedd unrhyw arian grant yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Roedd cyfanswm y gwaith prosiect yn yr adroddiad yn cyfateb i £378,162 a'r cyllid grant ond yn cyfateb i 257,031.

Roedd yr aelodau o'r farn bod y swm oedd wedi ei ddarparu yn un hollol annigonol i sicrhau bod pob rhan o'r llwybr yn dilyn yr arfordir ac yn cyfarfod â disgwyliadau'r defnyddwyr o allu cerdded arfordir Ynys Môn heb orfod dilyn rhai rhannau ohono i mewn i'r tir.

Lleisiwyd y materion canlynol o'r drafodaeth a ddilynodd -

- i) Dywedodd Tony Pritchard bod y ramp fer ar ddechrau'r llwybr i Bryn Celli Ddu yn rhy serth i rhywun mewn cadair olwyn i'w defnyddio heb gymorth – **Gweithredu – edrychir ar hyn.**
- ii) Cyfeiriodd Margaret Ferne at yn y cynnig ar gyfer y llwybr yn Plas Cymyran. Pe bai statws y llwybr ar y Map Diffiniedig yn cael ei uwchraddio yna fe ddylai hwn fod yn Gilffordd yn hytrach na Llwyr Ceffylau - **Gweithredu - byddai'n cael ei adolygu.**
- iii) Cartrefi Modur yn cael eu parcio dros nos mewn lleoliadau heb awdurdod - **Gweithredu - roedd cynlluniau i Wardeiniau Parcio ddelio gyda'r materion hyn.**

10. MATERION LLEOL

10.1 Clirio Llwybrau Troed

Gofynnodd Tony Pritchard a oedd yna ddiffyg cyllid ar gyfer llwybrau a pham yr oedd y Cyngor Sir yn gwario arian ar lwybrau nad ydynt yn cael eu defnyddio a soniodd am lwybr yn Llangristiolus nad oedd wedi ei ddefnyddio am tua 20 mlynedd. Dywedodd Arwel Evans iddo gael cais i ailagor y llwybr arbennig hwnnw a chadarnhaodd Andria Massey ei bod wedi derbyn ceisiadau tebyg yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd y Gymdeithas Cerddwyr.

Dywedodd Jacki Lewis, fel trefnydd yr Ŵyl Gerdded, ei bod yn bwysig iawn cael llwybrau newydd ar gael fel y gellir amrywio'r rhaglen o deithiau cerdded.

Diolchodd Jim Marshal i'r Cyngor Sir am glirio llwybrau troed.

Cafwyd adroddiad gan Andria Massey ar gyllid yr oedd y grŵp gwirfoddol wedi ei sicrhau gan Gymdeithas y Cerddwyr ar lefel genedlaethol ac a oedd wedi ei ddefnyddio i brynu giatiau mochyn wedi eu galfaneiddio. Roedd y grŵp yn codi'r gatiâu hyn ar y rhwydwaith o lwybrau lleol, yn bennaf yn lle'r hen gamfeydd er mwyn gwneud y llwybrau'n haws i'w defnyddio. Diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp gwirfoddolwyr am eu gwaith.

11. CYFARFOD O GADEIRYDDION FFORYMAU MYNEDIAD – Y DRENEWYDD 15 HYDREF 2013

CYTUNWYD i gyflwyno eitem ar Raglen y Cyfarfod yn galw ar i Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru gyflwyno achos cryf ac apel i Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol i Awdurdodau Lleol i'w galluohti hwy i gynnal a chadw'r llwybrau a hefyd i allu cwblhau rhannau o'r Llwybr Arfordirol lle roedd y rhannau hynny yn crwydro i mewn i'r tir yn hytrach na dilyn yr arfordir.

12. Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar **28 IONAWR 2014**.

Daeth hynny â busnes y Fforwm i ben a datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

.....
CADEIRYDD

3. MATERION YN CODI

3.1 Trwyn Rhoscolyn

Nodwyd bod rhywun wedi disgyn yn y lleoliad hwn a bod angen edrych ar y rhan honno o'r llwybr. Dywedodd y gwirfoddolwr John Stubbs fod gwaith bellach wedi ei wneud a bod pont drawstiau newydd a grisiau wedi eu gosod. Diolchodd y Cadeirydd i'r rheini a wnaeth y gwaith.

3.2 Afon Crigyll

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf o'r Fforwm, dywedodd Arwel Evans ei fod ef a Christopher Topps wedi trefnu cyfarfod ar y safle ar 27 Mawrth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â'r cerrig a osodwyd yn yr aber. Dangosodd luniau o'r ardal dan sylw. Nodwyd bod yr asiantaeth wedi rhoi eglurhad derbyniol a bod y cerrig wedi eu gosod i rwystro erydiad.

3.3 Y Llwybr o Fennech i Draeth Dewi Sant, Traeth Coch

Ymchwiliwyd i'r gŵyn bod y llwybr wedi culhau ac yn anodd i bobl mewn cadeiriau olwyn ei ddefnyddio. Byddai gwaith cynnal yn cael ei wneud ar y llwybr yn ystod yr Haf.

3.4 Pont Aber Alaw

Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud ar y fynedfa i'r bont ac y byddai agoriad swyddogol gan Weinidog yr Amgylchedd yn cael ei drefnu ar gyfer yr haf.

3.5 Llinellau Pŵer newydd arfaethedig ar draws Ynys Môn

Yn dilyn adroddiad ar gyfarfod o Fforymau Mynediad Lleol Ynys Môn, Gogledd Eryri ac Arfon/Dwyfor ym mis Ionawr 2013 roedd Fforwm Ynys Môn wedi penderfynu yn y cyfarfod diwethaf ei fod yn erbyn defnyddio mwy o beilonau a fyddai'n difetha tirwedd Ynys Môn ac yn cael effaith andwyol ddifrifol ar dwristiaeth a busnesau cysylltiedig.

Nododd y penderfyniad mai'r opsiynau a oedd yn cael eu ffafrio oedd trawsyrru trydan dan y môr neu o dan y ddaear. Yn y drafodaeth ddilynol rhoddwyd sylw i wahanol rinweddau a chostau'r amrywiol dulliau o drawsyrru trydan. Nodwyd hefyd fod hwn yn amser da i drafod adeiladu pont newydd ar draws Afon Menai a allai ddatrys problem draffig a chludo'r pŵer angenrheidiol ar draws y Fenai pe bai'r holl bartïon perthnasol yn trafod y mater ac yn cydweithredu.

Penderfynodd y Fforwm drefnu cyfarfod arbennig gyda'r Grid Cenedlaethol i bwysleisio'r gwrthwynebiad i lwybr y peilonau newydd ac i drafod opsiynau eraill.

4. CYFARFOD CADEIRYDDION FfMLI YN ABERYSTWYTH AR 20 CHWEFROR 2013

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r cyfarfod ond nad oedd llawer o'r eitemau a drafodwyd yn uniongyrchol berthnasol i Ynys Môn ac eithrio'r pwnc a gyflwynwyd am sylw gan Fforwm Mynediad Lleol Ynys Môn ynghylch yr angen i roi gwybod i ffermwyr am y tiroedd mynediad agored a ddynodwyd. Cefnogwyd y mater hwn yn llawn a byddai hefyd yn cael ei drafod y nes ymlaen yn y cyfarfod dan eitem 7.

5. FFORWM MYNEDIAD CENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU

Nodwyd bod y Fforwm Cenedlaethol wedi ei gynnal yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno ar 12 Mawrth 2013. Roedd y Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr yr holl sefydliadau sydd yn ymwneud â materion tiroedd a mynediad yng Nghymru. Roedd gwahoddiad agored i bob aelod o'r Fforymau Mynediad Lleol i ddod i'r cyfarfodydd fel sylwedyddion ond nid oedd caniatâd iddynt siarad ar unrhyw faterion dan drafodaeth. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu'r cyfarfod ond nid oedd ganddo adroddiad ar unrhyw eitem benodol.

6. HYGIRCHEDD HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf fod trafodaeth wedi ei chynnal ar ddyluniad a safonau giatiau a chamfeydd a arweiniodd at drafodaeth ehangach am gyfrifoldebau awdurdodau priffyrdd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth priffyrdd. Mewn ymateb i'r drafodaeth roedd Arwel Evans wedi paratoi adroddiad yn rhoi gwybodaeth am agweddau perthnasol y gyfraith a'r canllawiau sydd ar gael i Awdurdodau Lleol ac roedd y wybodaeth honno wedi ei chylchredeg i'r aelodau gyda'r rhaglen [Papur B].

Roedd y wybodaeth yn egluro darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 a sut y byddant yn cael eu gweithredu ar gyfer gwaith mynediad i'r cefn gwlad a hawliau tramwy. Cylchredwyd hefyd fanylion am ganllawiau statudol a gyhoeddwyd yn 2007 gan Lywodraeth Cymru dan adrannau 147 a 147A Deddf Priffyrdd 1980 a oedd yn ymwneud â rheidrwydd i Awdurdodau Lleol gadw anghenion pobl gyda phroblemau symudedd mewn cof pan maent yn awdurdodi camfeydd a giatiau.

Trafododd y Fforwm wahanol agweddau ar weithredu'r deddfwriaeth. Pwysleisiodd Tony Pritchard bwysigrwydd sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i bobl llai abl am lwybrau addas y gallant eu defnyddio. Dywedodd bod rhannau eraill o'r llwybr a oedd yn addas ar gyfer pobl llai abl ond nad oedd gwybodaeth amdanynt ar gael i'r cyhoedd. Nodwyd a chefnogwyd y pwynt a dywedwyd hefyd y byddai'r wefan newydd yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael.

Dywedodd Arwel Evans bod yr awdurdod priffyrdd bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella mynediad ac y byddai'n parhau i dargedu ardaloedd lle gellir gwneud gwelliannau. Roedd yn dasg tymor hir a pharhaus. Gofynnodd y Fforwm i'r staff priffyrdd edrych ar y pwerau sydd ar gael iddynt neu'r diffyg pwerau i gwrdd â gofynion y deddfwriaeth.

7. MAPIO MYNEDIAD AGORED

Croesawyd Molly Lovatt o Cyfoeth Naturiol Cymru(CNC) i'r cyfarfod. Nodwyd bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru oll wedi eu cyfuno i ffurfio'r corff newydd ar 1 Ebrill 2013 ac mai enw'r corff newydd oedd Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales.

Cylchredwyd Ystadegau Adolygu Mapio Mynediad Agored i'r aelodau. Nodwyd bod 10 o sylwadau wedi eu gwneud yn Ynys Môn ac mai ychydig iawn o newid a wnaed. Byddai map mynediad newydd yn cael ei baratoi a bydd cyfnod o ymgynghori wedyn.

Pwysleisiodd Peredur Hughes fod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru roi gwybod i ffermwyr, fel hawl gyfreithiol, am unrhyw ddarn o dir a fyddai'n cael ei ddynodi'n dir agored neu os byddai unrhyw newid ffiniau. Cefnogwyd hynny'n llawn gan y Fforwm a chytunodd Molly Lovatt y byddai'n mynd â'r gŵyn yn ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru.

8. MATERION LLEOL

8.1 Dynodi llwybr ceffylau

Gofynnodd Margaret Ferne a oedd unrhyw ran o'r Llwybr Arfordirol yn Ynys Môn yn addas ar gyfer ei ddefnyddio fel llwybr ceffylau a'i bod wedi cael gwybod bod arian grant ar gael i wneud hynny. Cyfeiriwyd at Gob Malltraeth fel enghraifft addas. Nodwyd nad oedd rhaid i lwybrau ceffyl fod o led statudol ond bod raid i giatiau fod o led penodol. Dywedodd y Cadeirydd fod defnyddio llwybrau i fwy nag un pwrpas e.e. gan feicwyr a cheffylau, yn beryglus i gerddwyr yn ei brofiad ef. Eglurwyd bod rhaid gwneud achos da i gyfiawnhau llwybr ceffylau pe bai CNC yn cymeradwyo rhan o lwybr.

8.2 Llwybr o'r Gaerwen i Landdaniel

Diolchodd Ted Thomas i Arwel Evans am drefnu gwelliannau ar gyfer darparu dau o giatiau newydd.

8.3 Dangosydd Perfformio Allweddol (DPA)

Dywedodd Dewi Williams fod y dangosydd ar gyfer argaeledd llwybrau y gallir eu defnyddio yn 59.2% a bod cynnydd graddol yn cael ei wneud.

8.4 Cyllid ar gyfer Llwybr Arfordirol Cymru

Dywedodd Huw Percy fod £1.1 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith cynnal am y ddwy flynedd nesaf ond, o rannu'r arian hwn rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru, nid oedd yn ddigonol. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch cyflogi dau aelod o staff yn Ynys Môn. Ni fyddai'r cyllid yn talu am y gwaith pwysig o gau'r bylchau yn y llwybr arfordirol yn Ynys Môn.

8.5 Presaddfed, Bodedern

Dygodd Margaret Ferne sylw at giât a gyflwynwyd ar gyfer llwybr ger Presaddfed oddeutu ddwy flynedd yn ôl ond nad oedd wedi ei gosod hyd yma. Dywedodd Arwel Evans y byddai'n delio gyda'r mater.

8.6 Map Swyddogol ar y Rhynggrwyd

Croesawodd y Fforwm gyflwyniad ar ba mor hyblyg oedd y wefan newydd a'r wybodaeth ynddi. Diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith hwn. Byddai'r fersiwn Gymraeg ar gael yn nes ymlaen.

8.7 Anfon papurau ar gyfer y cyfarfod trwy e-bost

Dywedwyd bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried mabwysiadu system o anfon ei holl raglenni a phapurau pwyllgor trwy e-bost, gan gynnwys at y Fforwm Mynediad Lleol. Fodd bynnag, nododd y Fforwm nad oedd gan rai o'i aelodau gyfleusterau rhynggrwyd ac nad oeddynt yn gynghorwyr ac nad oedd rhaid iddynt felly gydymffurfio â'r un gofynion. CYTUNWYD y dylai'r Fforwm gael ei eithrio o gynllun o'r fath ac na ddylai fod unrhyw newid.

9.0 FFORWM MYNEDIAD LLEOL NEWYDD

Gan y byddai cyfnod gwasanaeth yr aelodau cyfredol yn dod i ben ym mis Medi 2013 byddai angen dewis aelodau newydd ar gyfer y Fforwm am y 3 blynedd nesaf. Nodwyd y byddai hysbysebion yn y papurau lleol ac yr hysbysir amryfal gyrff a chynghorau lleol. Gallai'r aelodau cyfredol ailymgeisio. Ar ôl sefydlu'r Fforwm newydd byddai swyddogion newydd yn cael eu penodi. Roedd rhaid cael rhwng 12 a 22 o aelodau ar y Fforwm.

Nododd yr aelodau ei bod yn hollbwysig dewis aelodau a fyddai'n medru cwrdd ag amcan y Fforwm, sef sicrhau mynediad cyhoeddus, e.e. ar hyd y cyfan o'r llwybr arfordirol oherwydd nad oedd stadau mawr wedi cydweithredu â'r nod hwn hyd yma.

10. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar **24 MEDI 2013**

Daeth hynny â busnes y Fforwm i ben a chaewyd y cyfarfod yn swyddogol gan y Cadeirydd.

.....
CADEIRYDD

This page is intentionally left blank

Pwyllgor: Fforwm Mynediad Lleol

Dyddiad: 28 Ionawr 2014

Teitl yr Adroddiad: Lôn Las Cefni

Pwrpas yr Adroddiad: Rhoi gwybod i'r aelodau am y sefyllfa gyfreithiol ynghylch defnyddio gwahanol gategoriâu o hawliau tramwy ac am statws cyfreithiol a datblygiad llwybr beicio Lôn Las Cefni

Adroddiad gan: Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol)

Gweithredu: Er gwybodaeth

1.0 Rhagarweiniad

Yn y cyfarfod diwethaf cafwyd trafodaeth ynghylch mynediad i geffylau o bosib ar hyd Cob Malltraeth a arweiniodd at drafodaeth ehangach ynghylch hawliau'r cyhoedd ar wahanol gategoriâu o briffyrdd.

Gofynnodd yr aelodau am adroddiad i egluro hawliau'r cyhoedd a hefyd am wybodaeth ynghylch statws cyfreithiol Lôn Las Cefni a'i datblygiad.

2.0 Categoriâu o briffyrdd

Statws	Diffiniad cyfreithiol	Sylwadau
Llwybr troed	"A highway over which the public have a right of way on foot only, not being a footway"	
Troedffordd (Palmant)	"A way comprised in a highway which also comprises a carriageway, being a way over which the public have a right of way on foot only"	Gall sgwteri symudedd a chadeiriau olwyn pŵer deithio'n gyfreithlon ar lwybrau troed a throedffyrdd ar gyflymdra o hyd at 4mya
Llwybr ceffyl	"A highway over which the public have the following, but no other, rights of way, that is to say, a right of way on foot and a right of way on horseback or leading a horse, with or without a right to drive animals of any description along the highway"	Nid oes unrhyw hawl mewn cyfraith gyffredin i feicio ar lwybr ceffyl ond mae Adran 30 Deddf Cefn Gwlad 1968 yn caniatáu reidio beic ar lwybrau ceffyl cyhoeddus. Dywed y ddeddf "shall not create any obligation to facilitate the use of the

		bridleway by cyclists". Felly mae'r hawl i feicio'n bodoli er y gall fod yn anodd defnyddio'r hawl honno ar adegau. Mae'n rhaid i feicwyr sy'n defnyddio llwybr ceffyl ildio i ddefnyddwyr eraill ar droed neu ar geffyl.
Cilffordd Gyfyngedig	Mae "hawliau cilffordd gyfyngedig" yn golygu — (a) hawl dramwy ar droed, (b) hawl dramwy ar gefn ceffyl neu dywys ceffyl, a (c) hawl dramwy i gerbydau ac eithrio cerbydau a yrrir yn fecanyddol; a Mae "cilffordd gyfyngedig" yn golygu priffyrdd y mae gan y cyhoedd hawliau cyfyngedig drostynt, gyda neu heb hawl i yrru anifeiliaid o unrhyw fath ar hyd y briffordd, ond heb unrhyw hawliau tramwy eraill.	
Cilffordd yn Agored i Bob Traffig	"A highway over which the public have a right of way for vehicular and all other kinds of traffic, but which is used by the public mainly for the purpose for which footpaths and bridleways are so used"	Mae cilffordd yn fath o gerbydlon. Mae'r prawf ar gyfer cofnodi cerbydlon ar y Datganiad a'r Map Swyddogol fel Cilffordd sy'n Agored i Bob Traffig yn ymwneud â'i gymeriad neu ei fath.
Trac beicio	"A way constituting or comprised in a highway, being a way over which the public have the following, but no other, rights of way, that is to say, a right of way on pedal cycles (other than pedal cycles which are motor vehicles within the meaning of the Road Traffic Act 1988 with or without a right of way on foot"	Yn aml mae'r ymadrodd 'trac beicio' yn cael ei ddefnyddio'n llac i olygu ffordd y mae gan gerddwyr Hawl Dramwy gyfreithiol drosti gyda dosbarth arall o ddefnyddwyr, fel llwybr ceffyl.
Cerbydlon	"A way constituting or comprised in a highway, being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles"	

3.0 Lôn Las Cefni – statws cyfreithiol

Mae'r mapiau yn Atodiadau 1-3 yn dangos llwybr y trac beicio. Mae gan y rhannau o'r llwybr y statws isod;

Rhan	Lleoliad	Statws	Wyneb	Sut cafwyd statws cyfreithiol
A - B	Bodffordd i Argae Cefni	Caniataol	Llwybr llwch cywasgedig 2m	
C - B	Pont Trefollwyn i Argae Cefni	Caniataol	Ffordd 3m trwy goedwig	
B - D	Argae Cefni i ffin tir Dŵr Cymru	Caniataol	Llwybr llwch cywasgedig 2m	
D - E	Ffin Dŵr Cymru i Pandy	Trac beicio statudol	Llwybr llwch cywasgedig 2m gyda rhannau concrid lle mae'r llwybr yn tueddu i gael llifogydd	Gwnaed cytundeb gyda'r perchennog yn 2006 ar gyfer priffordd newydd ac Fe brynwyd rhan o'r tir gan CSYM
E - F	Pandy i Lôn Rhosmeirch	Trac beicio statudol	Ffordd fynediad gyda thraciau olwynion wedi ei hwynebu mewn tarmac	Gwnaed cytundeb gyda thirfeddiannwr yn 2005 i greu trac beicio ar y llwybr cyhoeddus
E - G	Pandy trwy Goetir Nant y Pandy	Trac beicio statudol	Tarmac 2m neu goncrid	Gwnaed Gorchymyn yn 2010 dan Ddeddf Traciau Beicio 1984 i droi'r llwybr cyhoeddus yn drac beicio
G - H	Ger Asda	Trac beicio statudol	Llwybr tarmac o fewn cerbydlon	Adeiladwyd o'r newydd
H - I	Ger y Stad Ddiwydiannol	Trac beicio statudol	Tarmac 2m	Gwnaed Gorchymyn yn 2002 dan Ddeddf Traciau Beicio 1984 i droi'r llwybr cyhoeddus yn drac beicio

Rhan	Lleoliad	Statws	Wyneb	Sut cafwyd statws cyfreithiol
I - J	Rhan Llwyn Ednyfed	Trac beicio statudol	Tarmac 2m	Gwnaed Gorchymyn yn 2002 dan Ddeddf Traciau Beicio 1984 i droi'r llwybr cyhoeddus yn drac beicio
J - K – L - M	Afon Ceint i Bont Marcwis	Trac beicio statudol	Tarmac 2m	Wedi ei adeiladu o'r newydd a'i fabwysiadu wedyn gan CSYM
M - N	Pont Marcwis i Gob Malltraeth	Cerbydlon	Tarmac	
N - O	Cob Malltraeth	Trac beicio statudol	Tarmac 2m	Gwnaed Gorchymyn yn 2002 dan Ddeddf Traciau Beicio 1984 i droi'r llwybr cyhoeddus yn drac beicio
O - P	Coedwig Niwbwrch	Caniataol	Lonydd coedwig / llwybr graean	
P - Q	Coedwig Niwbwrch i Niwbwrch	Cerbydlon	Tarmac	

4.0 Lôn Las Cefni – hanes cryno

Cafodd y syniad o sefydlu Lôn Las Cefni sylw'n wreiddiol mewn adroddiad ym mis Medi 1998 gan Sustrans ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd yr adroddiad yn argymhell adeiladu llwybr i gerddwyr a beicwyr rhwng Niwbwrch, Llangefni a Benllech a oedd yn glir o draffig i raddau helaeth ac a oedd yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio amddiffynfeydd rhag llifogydd ar Afon Cefni. Ni fwriwyd ymlaen gyda'r cyswllt rhwng Pentre Berw a Benllech ond daeth llwybrau newydd yn Llyn Cefni a chyswllt rhwng Llyn Cefni a Llangefni yn rhan o'r prosiect. Agorwyd y llwybr yn swyddogol yn Ebrill 2007.

Dechreuodd gwaith ar y cynllun yn 2002 pan gafodd rhan H - I (Stad Diwydiannol Llangefni) ei throi o fod yn llwybr i fod yn drac beicio wedi ei adeiladu fel llwybr cywasgedig 2m. Cyllidwyd y gwaith hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn ac ers hynny mae llwybr wedi ei darmacio fesul tipyn wrth i gyllid ddod ar gael.

Cafodd rhan N – O (Cob Malltraeth) ei throi o fod yn llwybr i fod yn drac beicio yn 2002/03 ac fe'i hadeiladwyd yn wreiddiol fel llwybr llwch cywasgedig gyda chyllid o Raglen Amcan 1.

Cafodd y llwybr ei darmacio gan CSYM yn 2011 gan ddefnyddio Grant Llwybr Arfordirol Cymru Gyfan.

Sefydlwyd y rhan ganiataol ar hyd glannau Llyn Cefni (A- B) mewn cydweithrediad gyda Dŵr Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth rhwng 2002 a 2005. Roedd hyn yn cynnwys strwythurau mawr newydd i groesi'r rheilffordd a'r afon ger yr argae, ac adeiladu troedffordd newydd ar hyd rhan o ffordd Bodffordd - Llangwyllog a'r B5111. Cyllidwyd y cynlluniau yn gyfan gwbl trwy'r Grant Trafnidiaeth. Wedi hynny, gwnaed gwaith gan y Comisiwn Coedwigaeth i greu maes parcio newydd ym mhen Bodffordd ac i wella'r maes parcio yn Pont Trefollwyn.

Adeiladwyd rhannau B-D-E-G (Llyn Cefni - Llangefni) a rhan E-F (Pandy - Lôn Rhosmeirch) yn 2005 a 2006 ac fe'u cyllidwyd yn gyfan gwbl trwy'r Grant Trafnidiaeth. Cafodd rhannau nad oeddent wedi eu selio o fewn Coetir Nant y Pandy eu tarmacio rhwng 2011-13 gan ddefnyddio cyllid ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Ganolfan Teithio Cynaliadwy.

Adeiladwyd rhannau I – J - K – L (Stad Diwydiannol Llangefni - Pont Marcwis) ar wahanol adegau rhwng 2004 a 2005 ac fe'u cyllidwyd trwy'r rhaglen Amcan 1, ac eithrio rhan rhwng Pont Bulkeley - Pont Mari Powell. Ar ôl defnyddio'r cyfan o'r arian Amcan 1, cwblhawyd y rhan hon gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2006 gan ddefnyddio eu harian eu hunain. Roedd gwaith ar y rhannau hyn yn cynnwys cryfhau glannau llifogydd Afon Cefni.

Adeiladwyd rhannau I – J - K – L yn wreiddiol fel llwybrau llwch cywasgedig ond maent wedi eu tarmacio ar wahanol adegau rhwng 2009 a 2013 gan ddefnyddio cyllideb referniw'r Cyngor a chyllid dan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol / Canolfan Teithio Cynaliadwy. Fel rhan o'r gwaith hwn cafodd cilffyrdd a oedd yn cysylltu Pont Bulkeley gyda Phentre Berw a'r A5 eu tarmacio hefyd.

Arwel G. Evans
ar ran Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol)

15 Ionawr 2014



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN**
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

DEWI R. WILLIAMS B.Sc. C.Eng., MICE, MIHT
Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol)
Head of Service (Environment and Technical)

Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn LL77 7TW

Council Offices
Llangefni
Anglesey LL77 7TW

MANYLION / DETAIL: LON LAS CEFNI


— Rhan oddi ar ffordd / Off-road section
- - - Rhan ar ffordd / On-road section

© Hawffrwynt y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Ordnance Survey 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chi gopïo, i ddarparu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i ddyddiad part mewn unrhyw ffurfi.
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

DYLUNWYD GAN:
DRAWN BY: agent
DYDDIAD / DATE ISSUED:
13 January 2014
C.G. / G.R.: SH449756

GRADDDFA / SCALE:
Scale 1:25000





**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

DEWI R. WILLIAMS B.Sc. C.Eng., MICE, MIHT
Pennaeth Gwasanaeth (Amgylchedd a Thechnegol)
Head of Service (Environment and Technical)

Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn LL77 7TW

Council Offices
Llangefni
Anglesey LL77 7TW

MANYLION / DETAIL: LON LAS CEFNI

— Rhan oddi ar ffordd / Off-road section
- - - - - Rhan ar ffordd / On-road section

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Ordnance Survey 100023412
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniatáu i chi gopïo, i ddarparu, i ddarparu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i ddyddiad part mewn unrhyw ffordd.
You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

DYLLUNWYD GAN:
DRAWN BY: agent
DYDDIAD / DATE ISSUED:
13 January 2014
C.G. / G.R.: SH424674

GRADDDFA / SCALE:
Scale 1:25000

Dear Dan,

Open Access Mapping Review

Thank you for your e-mail, because the review is a review rather than a complete re-mapping of Open country and common land, it has been decided that it is unnecessary to inform every individual landowner directly. Unlike the first time the maps were created, we do not have the same level of resources allocated to this project as we had when we created the maps in 2005. The only statutory requirement we have is to put a public notice in the press on both draft maps and provisional map issue dates, however as you will see, we have endeavoured to go way beyond what is required of us in order to safeguard our future working relationship with the public, landowners and the farming unions.

